

Pwy fydd yn darparu'r cwrs hwn?

Ysgol Ardudwy.



Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Bydd y cwrs hwn yn dy helpu i:

- ddysgu pa fath o waith sydd ar gael mewn gwasanaethau salon a sut i baratoi ar gyfer hynny;
- gael cyflwyniad i ddulliau pyrmiio a lliwio elfennol;
- dysgu sut i steilio gwallt gan ddefnyddio offer megis gefel, rholeri, sychwr gwallt ac unionsythwr.
- ddysgu sut mae rhoi colour ymlaen;
- ddysgu sut mae trin ewinedd yn elfennol.

Sut y byddaf yn dysgu?

Byddi'n cael dy ddysgu gan Sioned Williams, Darlithydd Trin Gwallt a Steilydd Gwallt proffesiynol yn Salon Ceri a Morus ym Mhorthmadog. Bydd 75% o'r cwrs yn cael ei ddysgu drwy weithgareddau ymarferol a bydd y 25% arall yn cael ei ddysgu yn y dosbarth.

Sut y byddaf yn cael fy asesu?

Cei dy asesu'n barhaus drwy'r flwyddyn ar ddarnau bach o waith sgrifennu neu lafar ac asesiadau ymarferol. Byddi'n cael cyfle i baratoi ac ymarfer dy sgiliau cyn i ti gael dy asesu fel dy fod yn gwybod ac yn deall beth sy'n rhaid i ti ei wneud. Bydd raid i ti sefyll arholiad ar-lein ar ddiwedd y cwrs.

Beth fydd yn digwydd ar ôl y cwrs yma?

Ar ôl Blwyddyn 11, gelli fynd yn dy flaen i astudio trin gwallt neu harddwch lawn amser yn y coleg lle byddi'n gweithio tuag at NVQ Lefel 2 neu 3 mewn maes perthnasol. Ar ôl hynny, mi fyddi di'n barod i weithio mewn swydd addas o dan oruchwyaeth, neu mi elli ddal i hyfforddi ar gynllun Prentisiaeth Fodern.

Syniadau am swyddi.

- Trin Gwallt.
- Technegydd Harddwch.
- Busnes Trin Gwallt Symudol.
- Gweithio mewn Sba.
- Gweithio ar longau teithio neu salon mewn gwestai.

Am wybodaeth pellach cysylltwch â:

Miss Sioned Williams, Ysgol Ardudwy.

C&G Diploma mewn Sgiliau Salon - Lefel 1
Trin Gwallt

